

Canllawiau ar gyfer Ceisiadau am Ddyrchafiad i Fand 2 a 3 i Athrawon

Caiff ymgeiswyr wneud cais am ddyrchafiad ar sail rhagoriaeth ac arweinyddiaeth gyson ar y lefel angenrheidiol mewn addysgu a dysgu, ymchwil neu gyfraniad ehangach i'r Brifysgol. P'un bynnag o'r meini prawf uchod y bo ymgeiswyr yn ei ddewis yn brif sail dros y cais, rhaid iddynt ddangos hefyd eu gallu a'u heffeithiolrwydd yn un o'r meysydd eraill, neu'r ddau ohonynt.

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rhychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny ar ben y rhagoriaeth y gallant ei nodi yn y maes o'u dewis. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol y dylai ceisiadau ar y lefel hon nid yn unig ddangos rhagoriaeth fel unigolion, ond hefyd arweinyddiaeth sylweddol, gyson a chydabyddedig yn y brifysgol ac yn allanol.

I gael gwybodaeth am y meini prawf ar gyfer dyrchafiad i fand 2 a 3 i athrawon, cyfeiriwch at y 'Meini Prawf ar gyfer Dyrchafiad i Fand 2 a 3 i Athrawon'. Ni ddisgwylir i ymgeiswyr gyflawni'r holl ddangosyddion ym mhob maes.

Cyfle Cyfartal

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at greu amgylchedd i weithio, dysgu, ymchwilio ac addysgu ynddo sy'n rhydd o wahaniaethu a thriniaeth annheg. Bwriedir i'r drefn ar gyfer dyrchafu fod yn deg, yn eglur ac yn cyd-fynd â pholisïau cyfleoedd cyfartal y Brifysgol.

1 Y Drefn Ddyrchafu

Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais am ddyrchafiad i fand 2 a 3 i athrawon wneud y canlynol:

- Lenwi'r 'Cais CV am Ddyrchafiad i Fand 2 a 3 i Athrawon' a'i anfon at Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg. Dylai ymgeiswyr edrych ar y meini prawf ac ni ddylent gyflwyno unrhyw CV arall heblaw'r ffurflen gais CV.
- Fel rheol, dylid gwneud ceisiadau trwy Bennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg. Bydd Pennaeth yr Ysgol/ Deon y Coleg yn gwirio cywirdeb adrannau ffeithiol y CV ac yn rhoi gwerthusiad ysgrifenedig manwl o'r cais yn erbyn y Meincnodau a Dangosyddion Asesu.
- Dylid cyflwyno ceisiadau'n electronig (naill ai gyda llofnod electronig neu PDF) a gellir eu cyflwyno ar unrhyw adeg trwy'r Swyddfa Is-Ganghellor. Gellir cael y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor o swyddfa'r Is-ganghellor.
- Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr, a gadeirir gan yr Is-ganghellor.

2 Canllawiau i Benaethiaid Ysgolion a Deoniaid Colegau

Fel rheol, dylid gwneud cais trwy Benaethiaid Ysgolion a Deoniaid Colegau. Gofynnir i Benaethiaid Ysgolion a Deoniaid Colegau lunio gwerthusiad ysgrifenedig manwl bob un o'r cais yn erbyn y meincnodau yn y 'Meini Prawf Dyrchafiad i Athrawon (i Fand 2 a 3)' a dylai pob un ohonynt lunio llythyr yn amlinellu eu hasesiad o gryfderau a gwendidau'r cais. Gallant gyflwyno datganiad ar y

cyd.

Fodd bynnag, os nad yw Pennaeth yr Ysgol yn ddeiliad Cadair, dylai Deon y Coleg drefnu, yn hytrach, i Athro addas o'r Ysgol neu'r Coleg baratoi asesiad o'r achos. Os mai Pennaeth yr Ysgol yw'r ymgeisydd, bydd angen llythyr gan Ddeon y Coleg. Gellir hefyd gysylltu ag uwch academydd arall oddi mewn i'r Brifysgol, yn ôl doethineb yr Is-ganghellor.

3 Sylwadau i Ymgeiswyr

Mewn achosion lle gwrthodwyd y cais, rhoddir sylwadau ffurfiol i'r ymgeisydd gan aelod o Banel y Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr, gan nodi'r diffygion. Yn dilyn derbyn sylwadau, gall ymgeiswyr ofyn am i'w cais gael ei ailystyried, os daw'n amlwg bod deunydd hanfodol wedi'i hepgor, neu os credir y bu gwendid yn y broses.